Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Arlwyo mewn Ysbytai

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Cyhoeddwyd:** Gorffennaf 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** 350A2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwgfel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Philip Jones oedd yr unigolyn a gyflawnodd y gwaith.

# Cynnwys

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi gwneud cynnydd tuag at roi ein hargymhellion o ran gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion ar waith ond mae angen iddo fynd i'r afael â nifer o faterion sylweddol o hyd.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Atodiadau | |
| Canfyddiadau manwl yr archwiliad | 8 |
| Argymhellion a wnaed yn 2010 | 21 |
| Cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir | 24 |
| Cofnodi metrigau gofal wardiau – enghraifft sgorio maeth | 25 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae gwasanaethau arlwyo ysbytai yn rhan hanfodol o'r gofal a roddir i gleifion o gofio bod prydau bwyd maethlon, o ansawdd da yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu cleifion i adsefydlu a gwella. Mae gwasanaethau arlwyo effeithiol yn dibynnu ar gamau cadarn i gynllunio a chydgysylltu amrywiaeth o brosesau gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Mae'n rhaid i'r holl grwpiau staff amrywiol sy'n rhan o'r prosesau hyn gyfathrebu'n dda â'i gilydd, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyo, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.

**2.** Dylai hyn arwain at y canlyniad dymunol, sef gwasanaeth arlwyo sy'n hyblyg, yn gost-effeithiol ac yn darparu dewis da o brydau bwyd maethlon a all ddiwallu anghenion deietegol penodol cleifion. Mae angen i statws maethol cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n gywir, a dylid gwneud trefniadau i helpu cleifion i fwynhau eu prydau bwyd mewn amgylchedd sy'n gydnaws â bwyta.

**3.** Ym misoedd Mai a Mehefin 2010, gwnaethom waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) i weld a oedd ysbytai Singleton, Treforys, Castell-nedd Port Talbot a Thywysoges Cymru yn darparu gwasanaethau arlwyo effeithiol yn unol ag arfer da cydnabyddedig. Ystyriwyd 'cadwyn fwyd' y gwasanaethau arlwyo o'r camau cynllunio a chaffael, hyd at y systemau dosbarthu bwyd i'r ward a'r cleifion a'r dulliau o reoli amseroedd bwyd.

**4.** Bryd hynny, ein casgliad cyffredinol oedd bod y gwasanaethau arlwyo lleol yn diwallu anghenion y cleifion yn weddol effeithiol ond bod lle i wneud mwy i safoni gwasanaethau arlwyo a gwella profiadau cleifion. Gwnaethom nifer o argymhellion manwl yn dilyn ein gwaith gwreiddiol[1], yn ogystal â nifer o argymhellion yn ein hadroddiad cenedlaethol dilynol[2] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011. Nod yr argymhellion hyn oedd gwella cydymffurfiaeth â gweithdrefnau sgrinio maethol a chynllunio gofal a gweithdrefnau diogelwch bwyd, yn ogystal â gwella systemau i reoli costau arlwyo a gwella profiadau cleifion.

**5.** Yn fwy diweddar, cyhoeddwyd *Ymddiried mewn Gofal*[3] (Mai 2014) yn dilyn adolygiad annibynnol o agweddau ar ofal ac ymarfer yn Ysbytai Tywysoges Cymru a Chastell-nedd Port Talbot gan y Ganolfan Datblygu Gwasanaethau Dementia a The People Organisation. Ymhlith pethau eraill, nododd ddiffygion sylweddol o ran gweithdrefnau i ddarparu hylifau a bwyd i gleifion.

---

[1] Mae'r argymhellion i'w gweld yn *Arlwyo mewn Ysbytai* yn: www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/bwrdd-iechyd-prifysgol-abertawe-bro-morgannwg-arlwyo-mewn-ysbytai-2010

[2] Mae'r argymhellion i'w gweld yn *Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai* yn: www.wao.gov.uk/cy/cyhoeddi/arlwyo-maeth-cleifion-mewn-ysbytai

[3] Mae adroddiad *Ymddiried mewn Gofal* ar gael yn: www.wales.gov.uk/topics/health/publications/health/reports/care/?skip=1&lang=cy

6. Rhwng misoedd Chwefror ac Ebrill 2014, fel rhan o'n rhaglen o waith archwilio lleol, gwnaethom waith maes i weld a oedd y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran ein hargymhellion. Fel rhan o'n gwaith hwn, ymwelwyd â phedair ward yn ysbytai Treforys, Singleton, Castell-nedd Port Talbot a Thywysoges Cymru i arsylwi un pryd bwyd ac adolygu sampl o nodiadau achos. Daethom i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd tuag at roi ein hargymhellion o ran gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion ar waith ond bod angen iddo fynd i'r afael â nifer o faterion sylweddol o hyd.

7. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
   - er bod y trefniadau i fonitro a meincnodi dangosyddion lleol a chenedlaethol a mesurau eraill wedi datblygu, mae pryderon nad yw'r Bwrdd mewn sefyllfa i graffu'n ddigonol ar ei berfformiad o ran arlwyo a maeth;
   - mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i fabwysiadu un dull o weithredu o ran cynhyrchiant bwyd ac mae wedi gwella'r model arlwyo ar gyfer wardiau mewn rhai ardaloedd, ond nid yw'r trefniadau hyn wedi'u safoni eto ac nid oes asesiadau maethol wedi'u cwblhau o'r holl ryseitiau a bwydlenni sydd wedi'u datblygu'n lleol;
   - mae dealltwriaeth gliriach o gost cynhyrchu a dosbarthu bwyd, gan gynnwys yr angen i reoli goblygiadau cost Contractau Cymru Gyfan o ran bwyd yn effeithiol ac effaith ariannol y gystadleuaeth gan werthwyr bwyd y tu allan i'r GIG;
   - mae lefelau cydymffurfiaeth ag adnodd e-ddysgu asesu maethol Llywodraeth Cymru i nyrsys a nifer y staff nyrsio sy'n manteisio ar hyfforddiant diogelwch bwyd yn siomedig;
   - er y gwelwyd rhywfaint o gynnydd mewn rhai agweddau ar sgrinio a chynllunio maethol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar wella cyfraddau cydymffurfiaeth, yn enwedig ar gyfer sgrinio dilynol; ac
   - mae amseroedd bwyd wedi'u diogelu yn bwysig ac mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithio i sicrhau hynny, ond gwelsom ymarfer amrywiol, ac mae angen gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion am fwyd a maeth.

8. Ceir crynodeb o ganfyddiadau manwl ein gwaith dilynol yn Atodiad 1. Mae crynodeb o argymhellion ein harchwiliad gwreiddiol yn Atodiad 2.

## Argymhellion

**9.** Mae nifer o argymhellion wedi codi o'r adolygiad dilynol ac fe'u rhestrir isod.

| | |
|---|---|
| A1 | **Mae lle o hyd i wella'r fframwaith i ddatblygu, monitro a chofnodi materion yn ymwneud ag arlwyo a maeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:**<br>• datblygu dangosyddion priodol i fonitro lefelau hydradu, symudedd a threfniadau bwydo pob person hŷn;<br>• adolygu, egluro a symleiddio'r trefniadau ar gyfer grwpiau a phwyllgorau sy'n ymwneud ag arlwyo a maeth yn y Bwrdd Iechyd er mwyn lleihau achosion o ddyblygu a sicrhau cyfathrebu effeithiol;<br>• adolygu'r wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei chael am arlwyo a maeth a sut mae'n rheoli perfformiad yn y meysydd hynny;<br>• datblygu fformat yr Adroddiad Maeth Blynyddol ymhellach, yn enwedig yn sgil argymhellion *Ymddiried mewn Gofal*;<br>• adolygu'r dull o gofnodi metrigau gofal wardiau er mwyn cynnwys y niferoedd cleifion gwirionedd bob amser; a<br>• sicrhau bod arlwyo a maeth yn elfennau allweddol o drefniadau newydd y Bwrdd Iechyd i ymgysylltu â chleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. |
| A2 | **Mae angen safoni a gwerthuso rhai agweddau ar y ddarpariaeth fwyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:**<br>• sicrhau, ar fyrder, bod asesiadau maethol o ryseitiau a bwydlenni lleol yn cael eu cynnal ac nad yw'r arian a ddefnyddir yn dod o unrhyw agweddau pwysig ar faeth cleifion;<br>• sicrhau cydymffurfiaeth lawn â safonau ar gyfer mesur tymheredd bwyd ar wardiau;<br>• adolygu effaith byrbrydau a brecwast wedi'i goginio ar faeth cleifion unigol, ac ar wastraff bwyd; ac<br>• adolygu effaith ariannol y gystadleuaeth gan werthwyr bwyd preifat er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael y gwerth gorau o ran yr incwm y mae'n ei wneud o'i wasanaethau ei hun. |
| A3 | **Mae lefel cydymffurfio â'r pecyn e-ddysgu a gyflwynwyd yn 2011 er mwyn helpu i werthuso maeth cleifion yn siomedig o hyd, ac mae'n ymddangos bod darparu hyfforddiant diogelwch bwyd yn her. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:**<br>• rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod mwy o staff yn gwneud gwaith e-ddysgu ar faeth cleifion; ac<br>• atgyfnerthu'r angen i staff wardiau, a staff eraill, gael hyfforddiant diogelwch bwyd. |

A4 **Mae angen atgyfnerthu cydymffurfiaeth ag asesiadau maethol a threfniadau diogelu amseroedd bwyd yn barhaus ac mae angen gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion am fwyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:**

- adolygu gweithdrefnau asesu maeth cleifion yn sgil canfyddiadau'r adroddiad hwn;
- atgyfnerthu gofynion o ran diogelu amseroedd bwyd ar bob ward yn sgil canfyddiadau'r adroddiad hwn;
- gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ar draws y Bwrdd Iechyd am fwyd a maeth; a
- chydweithio gyda Chyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg a'i Is-Bwyllgor Bwyd a Maeth, i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o bryderon a ddaeth i'r amlwg yn ei waith, sy'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn.

# Atodiad 1

## Canfyddiadau manwl yr archwiliad

Mae'r tabl canlynol yn nodi canfyddiadau ein hadolygiad dilynol yn 2014 a oedd yn asesu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r materion a nodwyd yn archwiliad 2010.

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ystod o ddangosyddion i fonitro, meincnodi a chofnodi perfformiad ei wasanaethau arlwyo a maeth? | **Er bod y trefniadau i fonitro a meincnodi dangosyddion lleol a chenedlaethol a mesurau eraill wedi datblygu, mae pryderon nad yw'r Bwrdd mewn sefyllfa i graffu'n ddigonol ar ei berfformiad o ran arlwyo a maeth**<br>***Ymddiried mewn Gofal*:**<br>Nododd yr adroddiad proffil uchel diweddar hwn i'r Bwrdd Iechyd danberfformio mewn agweddau allweddol ar lefelau hydradu a threfniadau bwydo cleifion. Argymhellodd y dylai'r Bwrdd Iechyd *'[f]ynd mynd i'r afael ag ymarfer ym maes hydradu, symud a bwydo pob claf hŷn a chyhoeddi canlyniadau wedi'u harchwilio bob chwarter'.* Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn cyflawni'r safonau priodol ar fyrder, a chynnal y safonau hyn dros amser. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen dangosyddion clir a chadarn, adroddiadau ar duedd a gwybodaeth gymharol er mwyn dangos perfformiad y Bwrdd Iechyd o gymharu â sefydliadau eraill. Bydd angen i'r Bwrdd sicrhau hefyd ei fod yn craffu'n effeithiol ar berfformiad yn yr agweddau hyn ar ofal.<br>**Trefniadau Craffu'r Bwrdd:**<br>Dangosodd ein hadolygiad o bapurau'r Bwrdd dros gyfnod o 12 mis nad yw materion arlwyo a maeth yn cael llawer o sylw yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Er i'r Bwrdd gael mathau amrywiol o sicrwydd gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, fel yr Adroddiad Maeth ac Arlwyo Cenedlaethol ac adroddiadau Hanfodion Gofal, gwybodaeth gryno lefel uchel oedd hon ar y cyfan. Yn ystod ein hadolygiad, cawsom wybod nad yw'r wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei chael yn y meysydd hyn yn ddigon manwl na thrylwyr ac nad oes cytundeb ynghylch faint o rôl y dylai'r Bwrdd ei chwarae wrth fonitro perfformiad. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr angen i adolygu rôl perfformiad cyffredinol y Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ar 23 Mai 2014. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| | **Pwyllgor Llywio Maeth:**<br>Mae'r Pwyllgor Llywio Maeth (y Pwyllgor) yn un o is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r pwyllgor hwn yn bennaf sy'n canolbwyntio ar arlwyo a maeth. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar Hanfodion Gofal, Arolygon o Nifer yr Achosion a themâu o arolygon boddhad cleifion. Mae ganddo bedwar is-grŵp:<br>• Y Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth<br>• Y Grŵp Cymorth Maeth Clinigol<br>• Y Grŵp Maeth Pediatrig<br>• Y Grŵp Maeth Cymunedol<br>Mae'r grwpiau hyn yn cyfarfod ar wahanol adegau a dywedir bod ganddynt eu cylchoedd gorchwyl eu hunain. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'n ymddangos bod eu dyletswyddau'n gorgyffwrdd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu eu cylchoedd gorchwyl er mwyn egluro a symleiddio trefniadau pan fo hynny'n bosibl. Nid yw pob un o'r grwpiau'n gweithio'n effeithiol. Er enghraifft, yn ystod ein gwaith maes, roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro wedi cydnabod bod angen adnewyddu'r Grŵp Cymorth Maeth Clinigol er mwyn iddo fod yn gwbl effeithiol.<br>Mae nifer o grwpiau eraill yn ymdrin ag agweddau ar faeth cleifion ac arlwyo hefyd, er enghraifft:<br>• Y Grŵp Maeth Cleifion<br>• Grŵp Cynllunio Bwydlenni Bwrdd Iechyd PABM<br>• Grŵp Prosiect y Strategaeth Arlwyo<br>• Y Bwrdd Moderneiddio Gwasanaethau Gwesty<br>Defnyddir fforymau sy'n bodoli eisoes lle mae angen gweithio mewn ffyrdd amlddisgyblaethol neu drawsadrannol er mwyn cyflawni camau gweithredu a chanlyniadau y cytunwyd arnynt. Cydnabyddwn fod gan lawer o'r grwpiau yr un aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd gyson ac yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol. Fel uchod, gan fod cynifer o grwpiau a fforymau yn ymwneud â'r agenda hon, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod angen pendant am bob un a'i fod yn symleiddio trefniadau pan fo hynny'n bosibl. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
| --- | --- |
| | **HACCP (Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol):**<br>Ers ein gwaith blaenorol, mae trefniadau diogelwch bwyd mwy cyson wedi'u rhoi ar waith mewn ysbytai drwy weithredu trefniadau HACCP. Mae'r gwaith yn helpu i fynd i'r afael â gofynion archwiliadau Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd (EHO) a gynhelir gan y cynghorau lleol amrywiol. Yn dilyn ein gwaith yn 2010, penododd y gwasanaeth arlwyo reolwr sicrhau ansawdd er mwyn meincnodi safonau, gweithredu trefniadau HACCP a hyrwyddo mwy o gysondeb rhwng archwiliadau EHO. Cyn hyn, roedd polisïau arlwyo yn amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd a gwnaed gwaith i ddatblygu un dull o weithredu lle bo hynny'n bosibl e.e. cyflwyno polisi ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan ar reoli Listeria.<br>**Adroddiad Arlwyo a Maeth Blynyddol:**<br>Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn paratoi Adroddiad Arlwyo a Maeth blynyddol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Cyflwynwyd y math hwn o adroddiad yn dilyn ein gwaith yn 2010 ac mae'n canolbwyntio ar faeth cleifion yn hytrach na strategaethau ar gyfer gwasanaethau arlwyo. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu fformat yr adroddiad hwn a'i wella yn dilyn argymhellion *Ymddiried mewn Gofal.*<br>**Adborth gan gleifion a defnyddwyr gwasanaethau:**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wneud gwelliannau mawr i'r ffordd y mae'n galluogi defnyddwyr gwasanaeth i roi adborth. Mae newidiadau strategol a sefydliadol yn cael eu gwneud a fydd, yn ôl y staff, yn arwain at gasglu a defnyddio adborth 'ar raddfa ddiwydiannol'. Yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth arlwyo a staff nyrsio yn parhau i ddefnyddio'r systemau adborth cleifion sydd ar waith yn barod ac yn cyflwyno eu canfyddiadau i'r grwpiau amrywiol a nodir uchod. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda'i gynlluniau i safoni gwasanaethau arlwyo ymhob un o'i ysbytai? | **Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd i fabwysiadu un dull o weithredu o ran cynhyrchiant bwyd ac mae wedi gwella'r model arlwyo ar gyfer wardiau mewn rhai ardaloedd, ond nid yw'r trefniadau hyn wedi'u safoni eto ac nid oes asesiadau maethol wedi'u cwblhau o'r holl ryseitiau a bwydlenni sydd wedi'u datblygu'n lleol**<br>Yn 2010 gwnaethom nodi nifer o ffyrdd yr oedd angen i'r Bwrdd Iechyd safoni arferion arlwyo ymhob un o'i ysbytai. Mae ein gwaith presennol yn dangos ei fod wedi gwneud cynnydd mewn rhai o'r meysydd hyn, fel a ganlyn:<br>**Cytuno ar y model cynhyrchu bwyd ac arlwyo ar gyfer wardiau:**<br>Mae model gwasanaeth 'coginio-rhewi' safonedig ar waith mewn tri o'r pedwar prif safle. Mae dogfen ymgynghori'n cael ei hystyried ar gyfer cyflwyno'r model hwn yn Ysbyty Tywysoges Cymru, lle mae mwy o oblygiadau cyfalaf na'r safleoedd eraill.<br>Roedd Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Singleton wedi cyflwyno gweinyddion wardiau ar adeg ein hadolygiad yn 2010. Er mai rolau ar y wardiau yw'r rhain, y gwasanaeth arlwyo sy'n eu rheoli. Y gweinyddion hyn sy'n gyfrifol am drefnu amseroedd bwyd, archebu a helpu i weini bwyd ac mae'n ymddangos bod y model yn gweithio'n dda. Roedd amrywiad ar y model hwn yn cael ei dreialu adeg ein gwaith maes ar Wardiau Anglesey F a Gower S a T yn Ysbyty Singleton. Roedd y model hwn yn cynnwys ceidwaid wardiau, a oedd yn cael eu rheoli fel rhan o adnoddau'r wardiau, ond roeddent yn atebol i'r gwasanaeth arlwyo am eu rôl mewn perthynas ag amseroedd bwyd. Rhoddwyd y model hwn ar waith drwy gyfuno adnoddau wardiau ac adnoddau arlwyo. Ar ôl ein gwaith maes, deallwn i'r ceidwaid wardiau gael eu penodi'n barhaol ar y wardiau hyn. Cytunwyd penodi ceidwad ward arall ar gyfer Ward G yn Nhreforys, ond nid oes cynllun clir i sefydlu'r rolau hyn mewn rhannau eraill o'r ysbyty hyd yma.<br>Mae Ysbyty Tywysoges Cymru yn ystyried cyflwyno'r model gweinyddion ward, ar ôl i ganfyddiadau *Ymddiried Gofal* dynnu sylw at ddiffygion difrifol blaenorol mewn perthynas â safonau maeth cleifion a lefel yr hylif a gaiff ei yfed.<br>**Adolygu cynnwys maethol ryseitiau:**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu cyfran o'r ryseitiau a nodwyd gan Grŵp Cynllunio Bwydlenni Cymru Gyfan. Mae ganddo ei grŵp cynllunio bwydlenni ei hun sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ac adolygu ryseitiau a bwydlenni lleol.<br>Mae'n hanfodol bod asesiadau maethol yn cael eu cynnal o gynnwys ryseitiau yn unigol ac fel rhan o fwydlenni. Tra bod asesiadau maethol wedi'u cynnal o holl fwydlenni Cymru Gyfan, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gorffen asesu ei ryseitiau a'i fwydlenni lleol, gan fod diffyg adnoddau deieteg yn amharu ar gynnydd. Cyflwynodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
| --- | --- |
| | adroddiad diweddar i'r Bwrdd ar y mater hwn, yn dilyn gwaith gan Grŵp Llywio Pobl Hŷn y Bwrdd Iechyd.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ymwybodol ers sawl blwyddyn nad oes asesiadau maethol wedi'u cynnal o ryseitiau lleol ac nid yw wedi datrys y sefyllfa. Mae'n rhaid iddo fynd i'r afael â hyn ar fyrder. Er bod trafodaethau wedi'u cynnal, nid oes unrhyw gytundeb ynglŷn â rhoi adnodd deieteg ar waith na'r arian sydd ei angen i wneud hynny. Deallwn fod y Bwrdd wedi ystyried defnyddio rhywfaint o'r arian sydd wedi'i neilltuo i ddarparu byrbrydau am flwyddyn er mwyn helpu i gyflawni'r gwaith hwn. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw defnyddio'r arian hwnnw yn cael effaith andwyol ar y byrbrydau sydd ar gael i gleifion â risg faethol uchel ac sydd angen y cymorth maethol hwn.<br>**Cofnodi tymheredd bwyd:**<br>Mae safonau bwyd yn nodi bod yn rhaid cofnodi tymheredd bwyd ac mae'r gwasanaeth arlwyo yn gweithio'n barhaus i gynnal ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hyn. Fodd bynnag, mae data Metrigau Gofal y Bwrdd Iechyd yn dangos achosion lle na lwyddwyd i gydymffurfio â'r gweithdrefnau perthnasol. Awgrymodd ein harsylwadau mewn wardiau, a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith dilynol hwn, fod angen gwella arferion (gweler isod).<br>**Byrbrydau a brecwast wedi'i goginio:**<br>Mae cleifion sy'n cael sgôr faethol o 3 neu fwy o dan yr adnodd sgrinio maethol yn cael byrbrydau ac mae'r rhai sy'n cael sgôr o 7 neu fwy yn cael brecwast wedi'i goginio. Gall cleifion o dan y trothwyon hyn gael byrbrydau os ydynt yn dymuno hefyd. Dywedodd staff arlwyo a nyrsio nad oes awydd cinio a phryd gyda'r hwyr ar gleifion weithiau am eu bod wedi cael byrbrydau a brecwast wedi'i goginio. Mae'r gwasanaeth arlwyo wedi gweld cynnydd mewn gwastraff bwyd o ganlyniad i hyn. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd werthuso effaith maethol byrbrydau a brecwast wedi'i goginio er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael cydbwysedd maethol cyffredinol, a chymryd camau gweithredu lle bo angen i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Dylai barhau i asesu gwastraff bwyd sy'n gysylltiedig â'r mater hwn, fel ffordd o fesur effaith unrhyw gamau gweithredu a gymerir. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
| --- | --- |
| A yw'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau i reoli cynhyrchiant bwyd yn well a rheoli costau? | **Mae dealltwriaeth gliriach o gost cynhyrchu a dosbarthu bwyd, gan gynnwys yr angen i reoli goblygiadau cost Contractau Cymru Gyfan o ran bwyd yn effeithiol ac effaith ariannol y gystadleuaeth fewnol gan werthwyr bwyd y tu allan i'r GIG**<br>Mae nifer o gamau gweithredu allweddol wedi cael eu cymryd ers ein gwaith yn 2010:<br>• cynhaliwyd adolygiad o brisiau ar bob safle, ac mae'r prisiau a'r eitemau bwyd a brynir wedi cael eu cysoni;<br>• adolygwyd contractau bwyd, ond mae trafodaethau yn parhau â staff cyllid a chaffael er mwyn cytuno ar safbwynt y Bwrdd Iechyd ar faterion caffael a chytundebu ar gyfer prynu bwyd;<br>• caiff nifer y cwsmeriaid a gwariant cyfartalog eu cofnodi bob dydd yn ystod pob gwasanaeth bwyd er mwyn cynhyrchu cyfrif elw a cholled ar gyfer pob gwasanaeth bwyd ymhob ysbyty; ac<br>• mae Ysbyty Singleton ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot wedi adolygu amseroedd y gwasanaethau arlwyo i rai nad ydynt yn gleifion ac wedi cau cyfleusterau os nad yw'n ariannol hyfyw iddynt aros ar agor.<br>Yn 2010 nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn sybsideiddio gwasanaethau arlwyo i rai nad ydynt yn gleifion a bod bwlch o £711,204 rhwng cyfanswm y costau a'r incwm (nid oedd hyn yn cynnwys Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, gan nad oedd y wybodaeth ariannol ar gael). Yn dilyn hynny, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei ffigurau ei hun sy'n cynnwys Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac sy'n dangos i'r bwlch cyffredinol ar draws y Bwrdd Iechyd rhwng incwm a gwariant ar gyfer gwasanaethau arlwyo i rai nad ydynt yn gleifion, ostwng 20 y cant o £745,084 yn 2010-11 i £595,045 yn 2012-13. Fodd bynnag, cynyddodd y bwlch ar gyfer Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ychydig. Roedd y ffigurau hyn yn rhan o gyflwyniad System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau'r Bwrdd Iechyd (EFPMS) (i gael ffigurau manylach, ewch i Atodiad 3).<br>Nododd ein harchwiliad gwreiddiol yn 2010 hefyd nad oedd sefydliadau'r GIG yn gwneud defnydd digonol o ddata EFPMS i adolygu cost-effeithiolrwydd ac ansawdd gwasanaethau arlwyo. Nododd ein gwaith dilynol fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd llawn o ddata EFPMS i reoli a monitro gwasanaethau arlwyo a maethol ymhob un o'i ysbytai, a meincnodi costau â byrddau iechyd eraill.<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod mai'r unig wybodaeth y mae'n ei chasglu'n rheolaidd am wastraff bwyd yw gwybodaeth am blatiau bwyd sydd heb eu cyffwrdd. Bydd yn cynnal ymarfer peilot gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
| --- | --- |
| | Caerdydd a'r Fro er mwyn helpu i ddeall mwy am y gwastraff bwyd sy'n gadael wardiau. Mae gwasanaeth arlwyo'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallai wneud mwy i ddeall y rhesymau dros wastraff bwyd ac mae'n adeiladu ar ei weithgareddau presennol er mwyn monitro faint o blatiau bwyd na chânt eu cyffwrdd (gweler hefyd *Byrbrydau a brecwast wedi'i goginio*, uchod).<br>Mae'r gwasanaeth arlwyo yn bwriadu cynnal dadansoddiad manylach arall o gostau arlwyo ar gyfer rhai nad ydynt yn gleifion, ac mae wedi cofnodi'n ddiweddar bod incwm o werthiannau yn amrywio'n sylweddol ar draws safleoedd, o tua £9,000 (Ysbyty Castell-nedd Port Talbot) i £137,000 (Ysbyty Treforys). Nododd fod gwerthu yn faes lle mae angen gwneud mwy i gynyddu'r potensial i wneud incwm, ac mae wedi pennu cam gweithredu i adolygu'r polisi gwerthu a nifer y gwerthwyr ar y prif safleoedd.<br>Mae'r gwasanaeth arlwyo ar y prif safleoedd yn wynebu cystadleuaeth, gan gynnwys cystadleuaeth gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (yn Ysbyty Treforys ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot), Brewbaker (Ysbyty Tywysoges Cymru) a Costa Coffee (Ysbyty Singleton). Mae wedi nodi eu bod wedi'u lleoli yn y safleoedd gorau mewn ysbytai fel arfer, sy'n cynyddu eu potensial i wneud incwm, ac mae hyn yn ei dro yn effeithio ar dderbyniadau ei fwytai a'i siopau coffi ei hun. Mae'r gwasanaeth arlwyo wedi datblygu cysyniad arlwyo o'r enw 'Mwy Na' ac mae'n adeiladu siopau coffi yn Ysbytai Tywysoges Cymru a Threforys. Bydd y cyfleusterau newydd yn gwella ansawdd y gwasanaeth a gynigir ac yn galluogi'r gwasanaeth arlwyo i gystadlu'n fwy effeithiol â chystadleuwyr allanol. Hoffai'r gwasanaeth arlwyo pe bai contractau'r cystadleuwyr mewnol yn cael eu hadolygu (pan fo hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael y gwerth gorau o ran yr incwm y mae'n ei wneud o'i wasanaethau ei hun. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau priodol ar gael i staff nyrsio sy'n gyfrifol am weini bwyd i gleifion? | **Mae lefel cydymffurfio ag adnodd e-ddysgu asesu maethol Llywodraeth Cymru i nyrsys a nifer y staff nyrsio sy'n manteisio ar hyfforddiant diogelwch bwyd yn siomedig**<br>Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn e-ddysgu ym mis Medi 2011, sydd ar gael ar borth nyrsio'r GIG. Mae'r pecyn e-ddysgu yn canolbwyntio ar werthuso maeth cleifion, yn enwedig yr Adnodd Sgrinio Cyffredinol ar gyfer Diffyg Maeth (MUST) a'r defnydd o siartiau bwyd Cymru gyfan. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio adnodd WAASP[4] er mwyn cynnal asesiadau maethol ac er bod hwn yn arfer cyffredin, mae'n wahanol i ffocws MUST y pecyn e-ddysgu.<br>Roedd disgwyl i'r holl staff nyrsio a oedd eisoes yn gweithio mewn wardiau gwblhau'r pecyn hyfforddi e-ddysgu o fewn 12 mis ar ôl iddo gael ei gyflwyno a byddai staff nyrsio newydd yn ei gwblhau o fewn 12 mis ar ôl dechrau eu swyddi. Ers mis Medi 2011, cydnabyddir mai amrywiol iawn fu'r cynnydd a wnaed i gyflwyno'r pecyn e-ddysgu hwn ac iddo fod yn araf ar y cyfan ledled Cymru. Mewn cymhariaeth systematig a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Medi 2013, dim ond 14 o'r holl staff perthnasol ar wardiau yn y Bwrdd Iechyd a oedd wedi cwblhau'r pecyn maeth e-ddysgu. Dywedodd Llywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 4 Chwefror 2014 mai dim ond 23 y cant o staff oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant, ledled Cymru, hyd hynny. Y rhesymau a roddwyd dros y diffyg hwn yw prinder amser wedi'i ddiogelu i ymgymryd â hyfforddiant ac anawsterau wrth agor y pecyn hyfforddi ar-lein a chysylltiad araf â'r pecyn. Ar un ward y gwnaethom ymweld â hi fel rhan o'r adolygiad hwn, dim ond dwy nyrs a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant, ond roedd bwriad i gynnwys yr hyfforddiant fel rhan o gynlluniau datblygu personol o hyn ymlaen. Gwelwyd sefyllfaoedd tebyg ar y wardiau eraill y gwnaethom ymweld â hwy.<br>Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei fewnrwyd ei hun yn ddiweddar sy'n rhoi gwybodaeth i staff am ofal maethol cleifion, ond mae'n rhy gynnar i werthuso ei heffeithiolrwydd eto. Mae hefyd wedi cyflwyno sesiynau dysgu ar gyfer grwpiau ar gadw siartiau bwyd a hylif, er mwyn cynyddu cefnogaeth a gwella lefelau cydymffurfio.<br>Mae'r gwasanaeth arlwyo yn rhoi hyfforddiant ar ddiogelwch bwyd i staff nyrsio a staff eraill sy'n ymwneud â thrin a gweini bwyd. Mae'r gwasanaeth arlwyo wedi rhoi adroddiad i'r Grŵp Maeth a Gwasanaethau Bwyd ar gynnydd o ran cyflwyno'r hyfforddiant, a dywedodd wrthym, ar sail y lefelau cyfranogi, presenoldeb ac ariannu presennol, nad yw'n |

[4] Weight Appetite Ability to Eat – Stress Fractures and Pressure Sores/Wounds – adnodd asesu maethol y Bwrdd Iechyd, a gyflwynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn wreiddiol.

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| | bosibl ar hyn o bryd sicrhau bod pob nyrs yn cael hyfforddiant. Mae wedi cyfeirio at nifer y staff sy'n cofrestru lleoedd ar ddigwyddiadau hyfforddi ond nad ydynt yn eu mynychu, gyda'r staff yn dweud eu bod yn cael anhawster mynd i ddigwyddiadau hyfforddi oherwydd blaenoriaethau gweithredol eraill. Y canlyniad yw bod lefelau presenoldeb yn y digwyddiadau hyfforddi unigol yn isel, sy'n cynyddu cost y ddarpariaeth, a gall hyn arwain at ohirio hyfforddiant i aelodau eraill o staff. Mae o'r farn bod cyflwyno adnodd e-ddysgu ar gyfer hylendid bwyd yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant a'i fod hefyd yn opsiwn mwy cost-effeithiol o bosibl. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod staff nyrsio yn ysbytai Tywysoges Cymru a Threforys yn cael hyfforddiant, gan nad yw'r model gweinyddion ward wedi'i roi ar waith yn y safleoedd hyn ac mae'n rhaid i'r nyrsys hyn weini bwyd. Yn ystod ein gwaith maes, gwelsom ymarfer anghyson wrth gofnodi tymheredd bwyd hefyd, sy'n tanlinellu'r angen am hyfforddiant ymhellach.<br>Mae hyfforddiant effeithiol ar asesu maeth cleifion a thrin a thrafod bwyd yn ddiogel yn hanfodol er mwyn helpu staff i ddarparu gofal o ansawdd a gweithio mewn ffordd gyson. Mae angen mynd i'r afael â heriau o ran darparu hyfforddiant ar asesu maethol a diogelwch bwyd fel y nodir uchod ac mae angen cynyddu a monitro nifer y staff sy'n dilyn yr hyfforddiant hwn. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
| --- | --- |
| A yw'r Bwrdd Iechyd wedi gwella lefelau cydymffurfiaeth â threfniadau sgrinio maethol a chynllunio gofal? | **Er y gwelwyd rhywfaint o gynnydd mewn rhai agweddau ar sgrinio a chynllunio maethol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar wella cyfraddau cydymffurfiaeth, yn enwedig o ran y safon ar gyfer sgrinio dilynol**<br>Ar adeg ein hadolygiad gwreiddiol, roedd Safonau Maeth ac Arlwyo Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Bwyd a Hylif i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r cynnydd a wneir i weithredu'r safonau hyn ac mae'n adrodd arnynt fel rhan o'i waith hunanasesu ar safon gofal iechyd 14[5]. Er bod adroddiad cynnydd mis Rhagfyr 2013 yn dangos bod y rhan fwyaf o'r safonau ar waith, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r safonau o ran asesu maeth bwydlenni (gweler *Asesu maeth pob bwydlen a rysáit* uchod). Y nod oedd cyflawni'r safonau erbyn 30 Ebrill 2013 ond dywedodd staff y Bwrdd Iechyd nad oes digon o staff deieteg ar gael i wneud y gwaith hwn. Yn ogystal â'r safonau hyn:<br>• Caiff Llwybr Gofal Maeth ei fonitro bob mis ar wardiau a chyflwynir adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar gydymffurfiaeth.<br>• Mae prif nyrsys wardiau yn casglu ac yn monitro data metrig gofal y wardiau sy'n cynnwys dangosyddion am asesiadau a risgiau maethol. Mae'r uwch dîm nyrsio yn adolygu'r data hyn bob mis. Fel rhan o'n gwaith maes, gwnaethom adolygu sampl o ddata metrig gofal y wardiau a gwelwyd bod cydymffurfiaeth â'r safon ar gyfer sgrinio cychwynnol wedi gwella rhywfaint, a'i bod uwchlaw 90 y cant yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae canran yr ymarferion sgrinio dilynol sy'n cael eu cwblhau ar yr amser priodol yn llawer is, yn amrywio o 80 y cant i 90 y cant. Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn parhau i weithio i wella lefelau cydymffurfiaeth.<br>• Mae archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol yn cael ei gynnal mewn perthynas ag arferion bwyta ac yfed cleifion a chaiff y canlyniadau eu rhyddhau o fewn y Bwrdd Iechyd a'u cyflwyno'n genedlaethol.<br>• Caiff lefelau cydymffurfiaeth â gofynion o ran Diogelu Amseroedd Bwyd eu harchwilio a chyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Llywio Maeth. Hefyd, mae Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg yn cynnal rhai hapwiriadau (gweler isod) ac yn rhoi adroddiad i'r Bwrdd Iechyd, sy'n ymateb i'r CIC gan roi sylwadau a nodi unrhyw gamau gweithredu dilynol. |

[5] *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well* - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, 2010

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| | Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen edrych ar bob ffynhonnell o wybodaeth mewn wardiau am faeth a chymeriant hylif er mwyn cael sicrwydd. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno metrigau gofal ward sy'n ymwneud â maeth ers ein gwaith yn 2010. Caiff y data hyn eu hunangofnodi yn seiliedig ar samplau misol bach o gleifion ac felly ni ellir dibynnu arnynt i roi darlun manwl gywir o safonau gwasanaeth. At hynny, gallai'r ffordd y mae'r data'n cael eu cofnodi roi ymdeimlad ffug o sicrwydd os edrychir ar y data ar eu pen eu hunain; y rheswm am hyn yw bod y data yn seiliedig ar niferoedd bach iawn a gofnodir fel canran, ac ni roddir unrhyw wybodaeth am faint y sampl (gweler Atodiad 4).<br>Gwnaethom adolygu pum set o nodiadau achos cleifion ar bob un o'r pedair ward y gwnaethom ymweld â hwy er mwyn asesu a oedd ymarferion sgrinio maethol yn cael eu cynnal pan roedd cleifion yn cael eu derbyn i'r ysbyty ac a oedd adnodd sgrinio dilys yn cael ei ddefnyddio. Hefyd, gwnaethom gymharu'r manylion a gesglir yn ystod y broses sgrinio yn erbyn rhestr wirio o eitemau a dynnwyd o ganllawiau ar ymarfer a argymhellir. Er bod ymarfer priodol i'w weld yn aml, gwelsom hefyd nifer achosion o ymarfer gwael, er enghraifft:<br>• ar y cyfan, mae gwerthusiadau o iechyd y geg yn gyfyngedig;<br>• nid yw cymeriant deietegol arferol yn rhan o'r adnoddau asesu maethol;<br>• nid oedd cyfarpar i fesur taldra bob amser ar gael ac felly ni fesurwyd BMI bob amser;<br>• roedd sgoriau maethol yn anghywir mewn rhai achosion;<br>• mewn un achos, defnyddiwyd yr hen fersiwn o'r adnodd sgrinio maeth;<br>• roedd achosion lle roedd cynlluniau gofal ar waith ond nad oedd eu hangen ac achosion eraill lle nad oedd cynlluniau gofal ar waith er bod eu hangen;<br>• mewn un ward, nid oedd siartiau bwyd wedi'u cydlofnodi gan nyrsys; ac<br>• mewn un ward, roedd ychwanegion bwyd yn cael eu cofnodi ar fyrddau gwyn ond nid ar nodiadau'r cleifion.<br>Yn amlwg, mae'r materion hyn yn peri pryder, yn enwedig gan mai dim ond nifer fach o wardiau y gwnaethom ymweld â nhw.<br>Yn 2010, gwnaethom argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd gymharu i ba raddau y mae nyrsys a deietegwyr yn cytuno (dibynadwyedd rhwng sgorwyr) wrth sgorio risg faethol. Dywedodd staff nad oes digon o adnoddau wedi bod ar gael i wneud y math hwn o waith yn rheolaidd. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i sicrhau bod profiad cleifion o amseroedd bwyd ar bob ward yn un cadarnhaol? | **Mae amseroedd bwyd wedi'u diogelu yn bwysig ac mae'r rhan fwyaf o staff yn gweithio i sicrhau hynny, ond gwelsom ymarfer amrywiol, ac mae angen gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion am fwyd a maeth**<br>Ar ein hymweliadau â wardiau, gwelsom fod y rhan fwyaf o staff yn deall pwysigrwydd amseroedd bwyd wedi'u diogelu. Mae'r defnydd o fyrddau gwyn mewn llawer o wardiau yn helpu i nodi anghenion deietegol cleifion. Mae'r defnydd o gynlluniau hambwrdd coch yn tynnu sylw at anghenion maeth penodol hefyd, yn unol ag arfer da. Mae hyrwyddwyr gofal maeth yn cael eu cyflwyno mewn wardiau ar draws y Bwrdd Iechyd, a dywedir eu bod yn helpu i gefnogi'r agwedd hon ar ofal cleifion.<br>Fodd bynnag, wrth arsylwi amseroedd bwyd ar wardiau, gwelsom nad oedd cydymffurfiaeth bob amser yn gyson, yn benodol:<br>• ni welwyd bod cleifion yn cael cymorth i gynnal lefelau hylendid bob amser e.e. golchi dwylo neu ddarparu a defnyddio hancesi dwylo;<br>• nid oedd byrddau wrth ochr gwelyau bob amser yn cael eu glanhau cyn i fwyd gael ei weini, ac mewn un achos gadawyd potel wrin ar fwrdd yn ystod amser bwyd; ac<br>• nid oedd tymheredd bwyd bob amser yn cael ei gofnodi cyn gwasanaethau bwyd ac nid oedd thermomedr bwyd ar gael ar Ward G yn Ysbyty Treforys.<br>Mae rhywfaint o wybodaeth ar gael i gleifion am ddewisiadau bwyd ac amseroedd bwyd, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw'r ddarpariaeth yn gyson ymhob man a bod angen ei gwella. Mae trefniadau i ddarparu bwydlenni i gleifion yn amrywio ac ymddengys eu bod wedi dirywio ers ein gwaith yn 2010. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae nyrsys a chynorthwywyr arlwyo yn darllen dewisiadau i gleifion yn hytrach na rhoi'r fwydlen iddynt cyn amseroedd bwyd. Ar adeg ein gwaith, roedd y gwasanaeth arlwyo yn datblygu gwybodaeth i'w chadw wrth ochr y gwely ar gyfer y Bwrdd Iechyd cyfan, a fydd yn cynnwys ystod o wybodaeth am y bwyd sydd ar gael, gan gynnwys bwydlenni.<br>Awgrymodd ein harsylwadau mewn wardiau bod trefniadau i werthuso profiadau cleifion o fwyd yn anghyson. Er enghraifft, ar Ward G, nid oedd profiadau cleifion o ran bwyd wedi cael eu hasesu ers o leiaf dwy flynedd. Fel y nodwyd uchod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau gwneud newidiadau sylfaenol yn ddiweddar i'r ffordd y mae'n casglu gwybodaeth hanfodol gan gleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau. |

| Materion | Canfyddiadau manwl ein gwaith adolygu dilynol |
|---|---|
| | **Cyngor Iechyd Cymuned:**<br>Mae Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (y CIC) yn weithgar iawn o ran adolygu safonau arlwyo, maeth cleifion a chymeriant hylif yn y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau dirybudd i fonitro amseroedd bwyd wedi'u diogelu, sydd wedi canmol ymarfer ar rai wardiau yn y gorffennol gan dynnu sylw hefyd at faterion sy'n peri pryder e.e. prinder tystiolaeth o hylendid dwylo cyn prydau bwyd; diffyg dewis ar gyfer rhai prydau; y ffaith bod prydau gyda'r hwyr yn cael eu gweini'n gynnar sy'n golygu bod y cleifion yn wynebu bwlch mawr cyn brecwast.<br>Mae materion eraill sy'n peri pryder i'r CIC yn cynnwys y canlynol:<br>• diffyg trefniadau effeithiol i drosglwyddo gwybodaeth am anghenion deietegol a maethol cleifion llawfeddygol, a gesglir yn ystod asesiadau cyn llawdriniaeth, i wardiau pan fo'r claf yn dod yn glaf preswyl;<br>• diffyg dealltwriaeth ymhlith staff nyrsio o anghenion maethol cymhleth cleifion;<br>• diffyg gwybodaeth ymhlith staff nyrsio am yr opsiynau deietegol a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd;<br>• methiant i amseru prydau bwyd ar wardiau i gyd-fynd â threfniadau meddyginiaeth cleifion unigol;<br>• yr angen i wardiau gysylltu cynlluniau hunanfeddyginiaeth cleifion â'r bwyd a ddarperir; ac<br>• aneffeithiolrwydd systemau presennol i nodi pryderon cleifion am fwyd.<br>Yn ogystal â chymryd rhan mewn ymarferion blasu bwyd rheolaidd ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, sefydlodd y CIC ei Is-Bwyllgor Bwyd a Maeth ei hun yn ddiweddar. Mae cadeirydd gweithredol yr Is-Bwyllgor hefyd yn un o gleifion y Bwrdd Iechyd ac mae ganddo brofiad personol o'r heriau y mae cleifion ag anghenion deietegol a maethol penodol yn eu hwynebu. Mae'r Is-Bwyllgor yn sefydlu cynllun gwaith i ddatblygu trefniadau a fydd yn helpu i sicrhau darpariaeth faethol well i gleifion. Bydd y gwaith hwn yn rhoi fframwaith i'r CIC, a CICau eraill, fwydo ei adborth i mewn i waith y Bwrdd Iechyd ar fwyd, maeth a phrofiadau'r cleifion. |

# Atodiad 2

## Argymhellion a wnaed yn 2010

Mae'r tabl isod yn nodi argymhellion ein hadroddiad archwilio gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2010.

| **Trefniadau cynllunio a rheoli strategol** | |
|---|---|
| A1 | Datblygu amrywiaeth o ddangosyddion ar gyfer monitro a meincnodi perfformiad y gwasanaethau arlwyo a risgiau posibl i'r gwasanaeth, a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Bwrdd o leiaf yn flynyddol, er enghraifft mewn meysydd fel boddhad cleifion, materion yn codi o archwiliadau iechyd yr amgylchedd, gwastraff bwyd, perfformiad ariannol a'r amser mae'n cymryd i weithredu mentrau newydd. |
| A2 | Datblygu cynlluniau ar gyfer safoni arferion arlwyo ar draws yr ysbytai, gan gynnwys:<br>• cytuno ar y modelau cynhyrchu a dosbarthu;<br>• adolygu'r ryseitiau a ddefnyddir ym mhob ysbyty;<br>• asesu maeth yr holl ryseitiau a bwydlenni;<br>• safoni arferion wardiau yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys o ran cofnodi tymheredd bwyd cyn amser bwyd ac os oes angen, cofnodi tymheredd bwyd ar ddiwedd amser bwyd os oes cwynion fod prydau'n oer;<br>• gorchwylio amser bwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys o bryd i'w gilydd er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth bwyd a gwella effeithlonrwydd os oes angen;<br>• sefydlu amserlen o sesiynau blasu yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Treforys, sy'n debyg i'r un yn Ysbyty Singleton;<br>• cynnwys staff nyrsio a chleifion yn y sesiynau blasu; a<br>• gwneud mwy o ddefnydd o'r staff nyrsio mewn gwasanaethau bwyd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot fel sy'n cael ei wneud yn Ysbyty Singleton. |
| A3 | Ymestyn cylch gwaith y Grŵp Llywio Maeth, neu ei is-grwpiau, i gynnwys trosolwg o'r themâu a'r materion sy'n codi o arolygon boddhad cleifion, yrarchwiliad Hanfodion Gofal ac Arolygon Cyffredinolrwydd Heintiau. |
| A4 | Llunio proses i alluogi staff y wardiau i gyfrannu at y Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth. |

| | |
|---|---|
| **Caffael, cynhyrchu a rheoli costau** | |
| A5 | Ceisio safoni contractau arlwyo lleol am yr un nwyddau, neu nwyddau tebyg, h.y. un contract i bob ysbyty. |
| A6 | Adolygu strwythurau prisio yn y bwytai i staff/ymwelwyr ac wrth wneud hynny, gwneud penderfyniad clir am lefel y costau sydd i'w hadennill o'r gwasanaethau arlwyo nad ydynt ar gyfer cleifion. |
| A7 | Gweithio gyda staff arlwyo a staff nyrsio i wella'r broses o archebu bwyd i gleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys. |
| A8 | Gwella trefniadau ar gyfer monitro gwastraff bwyd heb ei weini, yn enwedig yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys a monitro'r rhesymau dros y gwastraff. |
| **Dosbarthu bwyd i gleifion** | |
| A9 | Sicrhau bod yr holl staff nyrsio sy'n gyfrifol am weini bwyd i gleifion yn cael hyfforddiant a chanllawiau ar y canlynol:<br>• rheoli dognau;<br>• diogelwch a hylendid bwyd sylfaenol;<br>• dillad diogelwch addas, gan gynnwys safoni lliw'r ffedog a ddefnyddir ynystod amser bwyd; a'r<br>• angen i gydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi tymheredd bwyd a beth i'w wneud os nad yw'r tymheredd yn cyrraedd y safonau gofynnol. |
| **Diwallu anghenion maeth** | |
| A10 | Gwella cydymffurfiaeth â sgrinio maethol a chynllunio gofal drwy:<br>• gofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am iechyd maethol cleifion ar y ffurflen Asesu Unedig/Asesiad Nyrsio, gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y geg;<br>• ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio gyda staff nyrsio;<br>• newid fformat offeryn monitro WAASP i ddangos yn glir beth yw sgôr pobelfen wrth ail-sgrinio cleifion;<br>• atgyfnerthu'r trothwy ar gyfer atgyfeirio cleifion am asesiad deietegol; ac<br>• atgoffa staff nyrsio am bwysigrwydd siartiau bwyd a diod Cymru gyfan a sut y dylid eu llenwi. |
| A11 | Sicrhau bod yr holl staff nyrsio'n gallu dod o hyd i wybodaeth am ofal maethol da yn hwylus, gan gynnwys y gwahanol fathau o ddeietau therapiwtig. |
| A12 | Cymharu i ba raddau y mae nyrsys a deietegwyr yn cytuno (i ba raddau mae graddwyr yn cytuno â'i gilydd) wrth sgorio risg maethol gan ddefnyddio'r offeryn WAASP; os yw'r prawf yn dangos nad oes llawer o gytundeb, yna dylid darparu hyfforddiant gloywi ar ddefnyddio'r offeryn WAASP. |

| **Profiad cleifion** | |
|---|---|
| A13 | Gwella profiad y claf drwy:<br>• barhau i hyrwyddo'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu rhwng grwpiau ehangach o staff;<br>• sicrhau bod cleifion yn cael eu trin â pharch drwy weini prydau bwyd arblatiau lle bo'n briodol;<br>• gweithio gyda chynrychiolwyr cyswllt cleifion a chleifion i asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo; a<br>• rhoi ystyriaeth i'r safbwyntiau llai ffafriol a fynegwyd gan gleifion a ymatebodd i'n harolwg, a mynd i'r afael â'r materion hynny. |
| A14 | Darparu gwybodaeth eglur am y gwasanaethau arlwyo a maeth i gleifion gan nodi'r canlynol:<br>• y trefniadau archebu bwyd yn y gwahanol ysbytai, gan gynnwys y defnydd o fwydlenni;<br>• nodi bod byrbrydau ar gael a sut i'w harchebu;<br>• pam mae cleifion yn cael eu hannog i beidio â dod â'u bwyd eu hunain i ysbytai; a<br>• pham nad oes rhai eitemau bwyd ar gael drwy'r amser, fel llaeth sgim neu dost. |

# Atodiad 3

## Cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a gynhyrchir

Mae'r tablau isod yn dangos bod y cymhorthdal i wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion wedi lleihau ar y cyfan rhwng 2010-11 a 2012-13.

Tabl 1: Cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a wnaed yn 2010-11

| Cost ac incwm | Tywysoges Cymru | Treforys | Singleton | Castell-nedd Port Talbot | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff | 371,139 | 546,712 | 566,672 | 223,516 | 1,708,039 |
| Darpariaethau | 137,251 | 358,297 | 261,489 | 196,832 | 953,869 |
| Nwyddau eraill | 21,544 | 84,747 | 55,227 | 22,474 | 183,992 |
| **Cyfanswm costau** | **529,934** | **989,756** | **883,388** | **442,822** | **2,845,900** |
| **Incwm** | **250,822** | **814,519** | **670,522** | **364,953** | **2,100,816** |
| **Bwlch** | **279,112** | **175,237** | **212,866** | **77,869** | **745,084** |

*Ffynhonnell: Adroddiad Cymhorthdal Arlwyo BIPABM, Chwefror 2014*

Tabl 2: Cost gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion a'r incwm a wnaed yn 2012-13

| Cost ac incwm | Tywysoges Cymru | Treforys | Singleton | Castell-nedd Port Talbot | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Staff | 390,721 | 527,117 | 490,555 | 311,280 | 1,719,673 |
| Darpariaethau | 133,736 | 427,172 | 213,058 | 132,140 | 906,106 |
| Nwyddau eraill | 38,098 | 46,444 | 63,280 | 20,519 | 168,341 |
| **Cyfanswm costau** | **562,555** | **1,000,733** | **766,893** | **463,939** | **2,794,120** |
| **Incwm** | **324,095** | **864,467** | **633,389** | **377,120** | **2,199,071** |
| **Bwlch** | **238,460** | **136,266** | **133,504** | **86,819** | **595,049** |

*Ffynhonnell: Adroddiad Cymhorthdal Arlwyo BIPABM, Chwefror 2014*

# Atodiad 4

## Cofnodi metrigau gofal wardiau – enghraifft sgorio maeth

Mae'r tabl isod yn dangos enghraifft o'r fformat a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i gofnodi metrigau gofal ward ar gyfer sgoriau maeth. Mae'r canrannau yn seiliedig ar sampl fach o gleifion o'r ward bob mis. Mae'r ffaith nad yw'r fformat hwn yn cofnodi nifer wirioneddol y cleifion yn golygu y gallai'r darllenydd gael darlun camarweiniol o lefel y sicrwydd a ddarperir.

Ysbyty Singleton, Ward 7

| | Canran y Sgoriau Maeth a Gwblheir a Chamau Priodol a Gymerir o fewn 24 awr i dderbyn claf | Canran yr asesiadau risg maethol dilynol sy'n cael eu cynnal o fewn yr amserlen a nodir (o blith nifer y cleifion sydd yn y sampl) | Canran y cleifion y nodir bod ganddynt risg gymedrol neu uchel sydd â siart bwyd a chynllun gofal |
|---|---:|---:|---:|
| **Ebr 2013** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |
| **Mai 2013** | 100.00% | 75.00% | 100.00% |
| **Meh 2013** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |
| **Gorff 2013** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |
| **Awst 2013** | 93.33% | 100.00% | 100.00% |
| **Medi 2013** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |
| **Hyd 2013** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |
| **Tach 2013** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |
| **Rhag 2013** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |
| **Ion 2014** | 100.00% | 100.00% | 100.00% |

*Ffynhonnell: Metrigau Gofal Wardiau BIPABM, Chwefror 2014*

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk